5-7 Oed

# Dysgu fel teulu

Gall dysgu am arian fod yn hwyl ac mae nifer o ffyrdd hwyliog i helpu eich plentyn i ddysgu gartref. Dyma rai gemau a gweithgareddau gwych y gallwch chi roi cynnig arnyn nhw gyda'ch plentyn – **gwnewch yn siŵr eich bod chithau'n cymryd rhan hefyd!**

## Trefnu a chyfrif darnau arian

Rhowch ychydig o ddarnau arian i'ch plentyn y gallwch eu cyfrif gyda'ch gilydd. I gychwyn, trefnwch nhw mewn pentyrrau o ddarnau arian sydd yr un fath.

Nesaf, gwnewch dyrau 10c. Mae gan bob darn arian werth gwahanol, felly bydd y tyrau yn wahanol feintiau. Sawl darn 1c fydd eu hangen arnoch i wneud tŵr sydd werth 10c? Sawl darn 2c fydd eu hangen arnoch i wneud tŵr sydd werth 10c?

Yn ôl pob tebyg bydd gennych rai darnau arian dros ben. A allwch chi roi unrhyw rai o'r darnau arian hyn at ei gilydd i wneud tŵr sydd werth 10c? Ar ôl i chi wneud pob un o'r tyrau 10c, gallwch ddechrau ychwanegu'r darnau arian mwy.

Nawr gwnewch bentyrrau £1. £1 yw 100c. Sawl tŵr 10c sy'n gwneud £1? Sawl darn arian 50c sy'n gwneud £1? Efallai fod gennych rai tyrau 10c ar ôl nad ydynt yn gwneud £1. Edrychwch ar eich darnau arian sy'n weddill a cheisiwch wneud £1 arall. Ar ôl i chi wneud eich pentyrrau £1, bydd angen pensil a phapur arnoch i gyfrifo'r cyfanswm.

Ar eich darn papur, lluniwch dair colofn. Bydd y golofn gyntaf ar gyfer £. Bydd yr ail ar gyfer 10c a'r drydedd ar gyfer ceiniogau.

| £ | 10c | c |
|---|---|---|
| | | |

Cyfrwch faint o bentyrrau £1 yr ydych wedi'u gwneud. Ysgrifennwch y rhif hwnnw yn y golofn £. Rhowch y pentyrrau hynny i un ochr gan eu bod bellach wedi'u cyfrif. Nesaf, sawl tŵr 10c sydd gennych chi yn weddill? Cyfrwch y tyrau 10c a rhowch y rhif yn yr ail golofn. Rhowch y tyrau 10c hyn i un ochr gan eu bod bellach wedi'u cyfrif. Ar gyfer y golofn olaf, mae angen i chi gyfrifo cyfanswm gwerth y darnau arian sy'n weddill. Bydd y cyfanswm yn llai na 10c gan nad oeddech chi'n gallu gwneud tŵr allan o'r darnau arian hyn. Cyfrifwch werth y darnau arian hyn, nid nifer y darnau arian. Gallai'r darnau arian fod yn werth 1c, 2c neu 5c.

Gofynnwch i'ch plentyn ystyried pam yr ydym yn defnyddio darnau arian gwahanol. A fyddai'n haws cyfrif pe byddai pob un ohonynt yn werth 1c? Pa bethau eraill fyddai'n anodd pe byddem ni ddim ond yn defnyddio darnau arian 1c?





5-7 Oed

## Rholio Ceiniogau

Helpwch eich plentyn i osod llinellau lliwiau gwahanol mewn sialc neu dâp ar y llawr. Un llinell yw'r llinell gychwyn a'r gweddill yw llinellau sgôr. Rhowch werth pwyntiau i bob llinell sgôr. Gallai'r gyntaf fod yn werth 5 pwynt, yr ail yn werth 10 pwynt. O'r llinell gychwyn, rholiwch geiniog mor bell â phosib. Po bellaf y bydd y geiniog yn rholio, y mwyaf o bwyntiau y byddwch yn eu sgorio. Defnyddiwch wahanol ddarnau arian i weld pa rai y mae eich plentyn yn ei hoffi orau ar gyfer eu rholio. Dechreuwch dwrnamaint rholio ceiniogau gyda'r teulu cyfan.

## Cân a dawns fuddugoliaeth

Anogwch eich plentyn i greu dawns fuddugoliaeth i enillydd y gystadleuaeth Rholio Ceiniogau. Gofynnwch iddo ddefnyddio symudiadau sy'n gwneud iddyn nhw feddwl am arian a'r darnau arian gwahanol. Dychmygwch fod Rholio Ceiniogau yn bencampwriaeth fyd-eang a bod pobl yn edrych arno ar y teledu. Canwch gân thema ddeniadol a pherfformio'r Rholio Ceiniogau. Gallai fod yn llwyddiant ysgubol ar draws y byd!

## Dylunio eich darn arian eich hun

Edrychwch ar y gwahanol luniau ar y darnau arian. Helpwch eich plentyn i ddysgu am rai o'r casgliadau diddorol o ddarnau arian. Ysbrydolwch ef i ddylunio ei ddarnau arian ei hun. Efallai y gallent fod y frenhines neu'r brenin gyda'u hwyneb ar un ochr i'r geiniog. Ar yr ochr arall gallai dynnu llun o unrhyw beth fyddai'n gwneud casgliad deniadol. Efallai anifeiliaid, pobl, lleoedd neu hyd yn oed bwyd?

## Rhannu

Pan fyddwch yn cael eich cinio neu swper, gallech chwarae'r gêm rannu. Cyn i chi ddechrau bwyta, gofynnwch i rywun roi rhif rhwng 1 a 5 i chi. Y rhif y mae'n ei ddewis yw nifer y bobl sydd i rannu eich bwyd. Dychmygol, wrth gwrs! Os oes rhywun yn dweud y rhif 2, rhannwch y bwyd ar eich plât yn ei hanner. A allwch chi rannu rhwng 3 neu 5? Mae'r rheini'n anodd. Gallai chwarae'r gêm hon gyda'i deganau hefyd. Rhowch gynnig ar rifau anoddach pan fydd ganddo lawer o bethau i'w rhannu.

## Gwerthoedd

Gofynnwch i'ch plentyn brintio neu dynnu llun o rai eitemau yr hoffai eu cael. Dewiswch bethau sy'n wahanol o ran maint fel pecyn o gardiau cyfnewid, breichled, DVD, gêm fwrdd neu gonsol gemau. Ar ôl i chi wneud eich rhestr o ffefrynnau, dyfalwch beth yw cost pob eitem. Helpwch ef i ddarganfod beth yw'r gwir brisiau. A oedd ei ddyfaliadau yn dda? Oedd pethau'n ddrutach neu'n rhatach nag yr oedd wedi ei ddyfalu? Rhowch yr holl eitemau yn nhrefn eu gwerth – helpwch ef i ddeall beth mae hynny'n ei olygu, gan roi'r eitem ddrutaf ar y brig, a'r rhataf ar y gwaelod. Nawr rhowch nhw mewn trefn yn ôl faint y mae ef eisiau'r teganau. Rhowch yr eitem y mae ef ei eisiau fwyaf ar y brig a'r eitem y mae ei eisiau leiaf ar y gwaelod. Faint o newidiadau a wnaeth ef? A oes rhai eitemau sy'n werth yr arian? Anogwch eich plentyn i ystyried beth y mae wedi'i ddysgu am werth.

## Helfa drysor

Defnyddiwch arian chwarae neu fe allai eich plentyn wneud ei arian papur celfydd ei hun. Cuddiwch yr arian i gyd o amgylch y tŷ. Rasiwch yn erbyn y teulu neu ffrindiau i weld pwy sydd wedi dod o hyd i'r swm mwyaf o arian ar ôl 3 munud.





5-7 Oed

## Sgyrsiau swper

Gall amser swper fod yn amser da i feddwl am gwestiynau anodd. Nid oes gan rai cwestiynau ateb cywir. Yn hytrach, mae llawer o atebion posibl. Bydd oedolion a phlant yn dewis un o'r atebion posibl hyn weithiau a phenderfynu eu bod nhw yn iawn, gan greu barn. Archwiliwch gwahanol farn gyda'ch plentyn a'r teulu ehangach.
Gallech roi cynnig ar rai o'r cwestiynau anodd hyn:

- A yw'n well cadw eich arian gartref neu mewn cymdeithas adeiladu neu fanc?
- A yw'n well prynu llawer o deganau rhad neu ychydig o deganau drud?
- A yw'n bosib cael gormod o arian?
- A yw'n well cynilo eich arian, neu ei wario?
- A yw'r pethau gorau mewn bywyd am ddim?

## Busnes bach - chwarae siop

Rydym ni i gyd wrth ein boddau yn chwarae siop! Gofynnwch i'ch plentyn ddewis y teganau neu'r eitemau y mae'n mynd i'w gwerthu a rhoi pris i bob un ohonyn nhw yn y siop. Cadwch y prisiau yn is na £1 er mwyn iddo allu cyfrifo'r cyfansymiau a'r newid ar gyfer ei gwsmeriaid. Gallai werthu beiro am 2c a llyfr am 10c.

Helpwch ef trwy fenthyca rhai darnau arian iddo er mwyn chwarae â nhw yn y siop. Gwnewch yn siŵr ei fod yn rhoi'r cyfan yn ôl pan fydd wedi gorffen! Bydd angen bocs neu jariau i'w defnyddio fel til.

Pan fydd y teulu'n ymweld â'i siop, gadewch iddyn nhw ddewis beth yr hoffen nhw ei brynu. Pan fyddan nhw'n dod â'r eitemau at y til, bydd angen i'r plentyn gyfrifo'r cyfanswm. Pan fyddan nhw'n talu efallai y bydd angen i'ch plentyn roi newid iddynt. A all eich plentyn gyfrifo'r newid?

Os yw wir yn mwynhau chwarae siop,  gallai ychwanegu bagiau ar gyfer y cwsmeriaid ac efallai gwneud arwyddion deniadol ar gyfer y siop. Efallai gallech ei helpu i wneud gwisg arbennig i'w gwisgo pan ei fod yn gweithio yn y siop. Gallai wneud til newydd gyda gwahanol flychau ar gyfer y gwahanol ddarnau arian.

**Diogelwch yn gyntaf!** Gwnewch yn siŵr fod eich plentyn yn dweud wrthych am y gemau a'r gweithgareddau fel y gallwch sicrhau ei fod yn chwarae'n ddiogel.